

Adroddiad y Tîm Gweithredol

1. Crynodeb

- 1.1 Yn ogystal â'n dyletswyddau statudol, y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sefydliad ar hyn o bryd yw: (1) prosiect datblygu'r wefan; (2) datblygu ein canllawiau ar weithredu diwygio rheoleiddio; (3) ymgysylltiad seneddol ar ôl yr etholiad ar ein maniffesto ar gyfer newid (gwneud gofal yn fwy diogel i bawb); (4) cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon PSA 2023/24; a (5) camau gweithredu i fynd i'r afael ag ymrwymadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn *Gofal mwy diogel i bawb*.

2. Argymhellion

- 2.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi adroddiad y Tîm Gweithredol a gofyn unrhyw gwestiynau i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.

3. Ymgysylltu â rhanddeiliaid gan y Prif Weithredwr

- 3.1 Rhwng cyfarfodydd y Bwrdd ym mis Mai 2024 a mis Gorffennaf 2024, mynychodd y Prif Weithredwr nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y canlynol.
- Cyfarfod o Brif Weithredwyr y rheoleiddwyr statudol.
 - Cyfarfod y cyngor yn y GOC.
 - Cyfarfodydd (ynghyd â'r Cadeirydd) gyda Phrif Weithredwyr a Chadeiryddion y GOsC, GMC a PSNI.
 - Cyfarfod (ynghyd â'r Cadeirydd) gyda'r Farwnes Hayter i drafod materion yn ymwneud â rhyw/rhywedd ar gofrestrau statudol.
 - Mynychu Fforwm Rheoleiddwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
 - Cyfarfod â'r Ombudsmon Dros Dro yn y PHSO.
 - Mynychu cyfarfodydd a drefnwyd gan GIG Lloegr ar y Fframwaith Arwain a Rheoli newydd.
 - Cyfarfod rhannu gwybodaeth chwarterol gyda'r DHSC a swyddogion o'r gweinyddiaethau datganoledig.
 - Cyfarfodydd unigol gyda Phrif Weithredwyr y GDC, GMC a HCPC.
 - Bwrdd Gwella Addaswydd i Ymarfer HCPC.
 - Curadu cyflwyniad a thrafodaeth bord gron ar arweinyddiaeth cyrff cyhoeddus yn y Ganolfan Gwyddoniaeth a Pholisi yng Nghaergrawnt.
 - Cyfarfod gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Cyngor Deintyddol Seland Newydd.
- 3.2 Gan edrych ymlaen, bydd y Prif Weithredwr yn mynychu digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid pellach cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd, gan gynnwys y canlynol.

- Cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid fel rhan o gyfarfodydd y Bwrdd yng Nghymru.
- Mynychu cyfarfod bwrdd yn SWE.
- Cyfarfod â Chomisiynydd Diogelwch Cleifion Lloegr.
- Gwneud cyflwyniad yng Nghynhadledd Rheoleiddio CLEAR yn Baltimore ym mis Medi (a mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ym mis Medi o bell).

4. Crynodeb o risgiau

- 4.1 Rydym wedi asesu'r tri phrif risg hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod fel a ganlyn: (1) yr ôl-groniadau o achosion addasrwydd i ymarfer mewn rhai rheoleiddwyr; (2) diffyg eglurder ynghylch y defnydd o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwiriadau cofnodion troseddol eraill gan reoleiddwyr a Chofrestrau; a (3) heriau gweithredu diwygiadau rheoleiddio sylweddol a'r risgiau cysylltiedig i effeithiolrwydd rheoleiddio a diogelu'r cyhoedd.

5. Rheoleiddio ac Achrediad

Adolygu Perfformiad

Adrodd

- 5.1 Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd adroddiadau ar gyfer y GOC, PSNI a SWE. Canfuom fod y GOC wedi bodloni pob un o'r Safonau. Canfuom fod PSNI wedi bodloni 15 allan o 18 o'r Safonau. Nid oedd yn bodloni Safon 4 oherwydd nad oedd y PSNI wedi darparu gwybodaeth amserol a chywir i ni. Ni fodlonodd y PSNI Safon 10 oherwydd y bu nifer o wallau ar gofrestr y PSNI yn ystod y cyfnod adolygu. Nid oeddent yn bodloni Safon 15 oherwydd ei bod yn cymryd gormod o amser i ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer ac mae nifer yr achosion hŷn sydd ar agor wedi cynyddu. Canfuom fod SWE wedi bodloni 17 allan o 18 o'r Safonau. Nid oedd yn bodloni Safon 15 gan ei bod yn cymryd gormod o amser i symud materion addasrwydd i ymarfer ymlaen.

Cylch Adolygu Perfformiad 2024-2027- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- 5.2 Rydym bellach yn defnyddio ein dull newydd o asesu rheoleiddwyr yn erbyn Safon 3 sy'n ystyried a yw'r rheoleiddiwr yn deall amrywiaeth ei randdeiliaid ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn gwahaniaethu'n annheg. Yr HCPC a'r GOsC yw'r rheoleiddwyr cyntaf i gael eu hasesu yn y modd hwn a disgwyliwn gyhoeddi ein hadroddiadau adolygu perfformiad 2023/24 ar y ddau reoleiddiwr hyn cyn diwedd mis Mehefin.

Adran 29

- 5.3 Mae'r tabl isod yn nodi'r ystadegau allweddol hyd yn hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae nifer y penderfyniadau a dderbyniwyd gan reoleiddwyr wedi aros yr un fath. Rydym wedi cyflwyno saith apêl hyd yn hyn ym mlwyddyn ariannol 2024/25.

	1 Ebrill 2024 - 31 Mai 2024	Yr un cyfnod 2023
Penderfyniadau a dderbyniwyd gan y PSA	397	394
Adolygiadau Achos Manwl (DCR) wedi'u cwblhau	15	22
Penderfyniadau terfyn amser statudol	10	7
Cyfarfodydd achos a gynhaliwyd:		
• Digonol	0	3
• Annigonol ond dim apêl	1	0
• Annigonol ac apêl	1	2
Apeliadau a gyflwynwyd	7	7
Pwyntiau dysgu a anfonwyd	20	30

- 5.4 Mae pedair apêl wedi'u cyflwyno ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd (NMC/Oluwaleye, NMC/Cradock, GPhC/Jamali a HCPC/Sharaf). Mae dwy apêl wedi'u setlo drwy gytundeb (NMC/Akinkugbe a GPhC/Farooq), ac mae setliadau'n cael eu harchwilio mewn sawl achos arall. Mae pob cyfreitha Adran 29 arall yn mynd rhagddo. Mae un penderfyniad wedi'i drosglwyddo gan y llysoedd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd a chadarnhawyd yr apêl (NMC/Haward).
- 5.5 Mae'r llwyth gwaith apeliadau ac adolygiadau achos manwl yn parhau i fod yn uchel ar gyfer tîm Adran 29, sy'n parhau i effeithio ar allu'r tîm i symud ymlaen â gwaith y tu allan i fusnes fel arfer.

Apwyntiadau

- 5.6 Ers y diweddariad diwethaf i'r Bwrdd, rydym wedi rhoi cyngor i'r Cyfrin Gyngor ynghylch dwy broses benodi. Roedd y rhain yn ymwneud ag argymhelliad y GDC o ran un ymgeisydd lleyg yn ymuno â'i Gyngor ac argymhelliad yr NMC o ran dau ymgeisydd i'w hailbenodi i'w Gyngor. Roeddem yn gallu hysbysu'r Cyfrin Gyngor y gallai fod yn hyderus yn y ddwy broses hyn.
- 5.7 Ar hyn o bryd mae pedair proses barhaus y mae'r PSA wedi ystyried hysbysiadau ymlaen llaw ar eu cyfer yn flaenorol, gan gynnwys proses y GMC i ddod o hyd i ddau ymgeisydd i'w hargymell ar gyfer eu penodi. Fe wnaethom adolygu cynlluniau'r GMC ym mis Mai a disgwylwn i'w broses ddod i ben ym mis Medi.

Cofrestrau Achrededig

Cyflawni gweithredol

- 5.8 Ar ddiwedd mis Mai, roeddem wedi methu ein targed o '90% o benderfyniadau am y gwiriad blynyddol o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol', lle cyflawnwyd 89%. Methwyd y dyddiad cau ar gyfer adolygiad blynyddol Cyngor Aciwbigo Prydain ym mis Mai 2024 oherwydd yr angen i gasglu gwybodaeth ychwanegol. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r asesiad yn mynd rhagddo ond disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2024. Fe wnaethom hefyd fethu'r targed yn y deuddeg mis blaenorol ar gyfer Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain, a'r Gymdeithas Seicotherapi Plant oherwydd pwysau adnoddau ar y pryd sydd bellach wedi'i ddatrys. Mae disgwyl i'r targed gael ei gyrraedd eto o fis Awst.
- 5.9 Roeddem hefyd wedi methu ein targed o '95% o Amodau'n cael eu hadolygu o fewn dau fis i'r dyddiad y'u disgwylwyd', gan gyflawni 90%. Mae hyn yn cynrychioli 9 allan o 86 o Amodau. Mae perfformiad yn parhau i gynyddu bob mis, ac rydym yn awr yn disgwyl iddo fod yn ôl ar y trywydd iawn erbyn mis Gorffennaf 2024. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r targed wedi'i fethu ers mis Hydref 2023 oherwydd cyfuniad o dystiolaeth a gyflwynwyd yn hwyr gan rai Cofrestrau, a heriau wrth ymdrin â'r nifer cynyddol o Amodau a gyhoeddwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.
- 5.10 Rydym wedi derbyn cais Safon Un newydd gan Gymdeithas Genedlaethol y Gweithwyr Gofal a Chymorth (NACAS) ar gyfer ei Chofrestr Proffesiynol Gofal Gwirfoddol (VCPR). Mae'r VCPR yn fenter ar y cyd rhwng NACAS a'r Sefydliad Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IHSCM).

Penderfyniadau achredu

- 5.11 Ers y cyfarfod diwethaf, rydym wedi cwblhau asesiadau Safon Un ar gyfer y Gofrestr o Dechnolegwyr Clinigol a Chymdeithas y Gwyddonwyr Darlifiad Clinigol. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau maes o law.

6. Safonau a Pholisi

Polisi ac ymchwil

Ymatebion i ymgynghoriadau

- 6.1 Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, rydym wedi ymateb i:
- ymgynghoriad Rheolau Gweithwyr Cyswllt Anesthesia a Gweithwyr Cyswllt Meddygol y GMC (rhagor o fanylion isod)
 - ymgynghoriad adolygiad Dyletswydd Gonestrwydd y DHSC

Diwygio deddfwriaethol

Ymgynghoriad ar ein canllawiau i gefnogi diwygio rheoleiddio

- 6.2 Buom yn ymgynghori'n ddiweddar ar ddwy ddogfen ganllaw ddrafft newydd i gefnogi diwygio: 'Arweiniad ar Ddefnyddio Canlyniadau a Dderbynnir mewn Addasrwydd i Ymarfer' ac 'Arweiniad ar Greu Rheolau'. Nod y rhain yw cefnogi

gweithrediad effeithiol y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer rheoleiddwyr sy'n cael ei chyflwyno fel rhan o ddiwygio rheoleiddio, gan ddechrau gyda'r Gorchymyn Gweithwyr Cyswllt Anesthesia a Gweithwyr Cyswllt Meddygol (AAPAO) 2024.

- 6.3 Cawsom 83 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys grwpiau cleifion, Colegau Brenhinol, cyflogwyr, cyrff y GIG, rheoleiddwyr, Cofrestrau Achrededig, sefydliadau amddiffyn a chymdeithasau proffesiynol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi'r dogfennau canllaw ac yn cytuno y byddai'r rhain yn helpu rheoleiddwyr i ddefnyddio eu pwerau newydd mewn ffordd sy'n amddiffyn y cyhoedd.
- 6.4 Rydym yn defnyddio'r adborth i fireinio'r dogfennau canllaw ymhellach ac i wneud yn siŵr ein bod yn ystyried meysydd penodol yr awgrymodd rhanddeiliaid y gellid eu gwella. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canllawiau terfynol ochr yn ochr ag adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ym mis Medi 2024.

Ymgynghoriad Rheolau Gweithwyr Cyswllt Anesthesia a Gweithwyr Cyswllt Meddygol y GMC

- 6.5 Rydym wedi cyflwyno ein hymateb i ymgynghoriad Rheolau Gweithwyr Cyswllt Anesthesia a Gweithwyr Cyswllt Meddygol y GMC¹, a gaeodd ar 20 Mai. Amlygwyd ein pryderon ynghylch rhai meysydd o'r cynigion ar gyfer addasrwydd i ymarfer. Mae'r rhain yn cynnwys y cynlluniau i ddefnyddio archwilwyr achos unigol yn unig, heb yr opsiwn o barau, ac anghydbwysedd rhwng hawliau apelio cofrestreion a mecanweithiau diogelu'r cyhoedd. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at y Llywodraeth i dynnu sylw at ein pryderon a mynegi ein parodrwydd i weithio gyda swyddogion i wella'r ddeddfwriaeth ei hun cyn iddi gael ei chyflwyno ymhellach. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod y ddeddfwriaeth yn ffurfio'r glasbrint ar gyfer diwygio'r ffordd y mae'r GMC yn rheoleiddio meddygon, ac ar gyfer y rheoleiddwyr eraill.

Prosiect Ailffocysu Addasrwydd i Ymarfer

- 6.6 Rydym wedi dechrau gwaith cwmpasu i edrych ar sut y gallai rheoleiddwyr helpu i leihau ofn diangen a hyrwyddo gwell dealltwriaeth ymhlith cofrestreion o'r broses addasrwydd i ymarfer a'i diben. Mae'r prosiect hwn yn llifo o'r bennod Atebolrwydd, Ofn a Diogelwch y Cyhoedd yn *Gofal Mwy Diogel i Bawb*², a'r sgysiau a gawsom gyda rhanddeiliaid ar y themâu hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

- 6.7 Yn dilyn cyhoeddi'r Etholiad Cyffredinol, rydym wedi bod yn paratoi ein bwletin seneddol cyntaf, llythyrau gweinidogol a briffiau cynnar yn barod ar gyfer pan fydd y llywodraeth nesaf yn ei lle. Rydym wedi dadansoddi'r maniffestos i nodi meysydd sy'n ymwneud â'n gwaith ac wedi defnyddio'r rhain i lunio'r eitemau rydym wedi'u paratoi. Unwaith y bydd penodiadau allweddol wedi'u gwneud, byddwn yn asesu'r amseru gorau o ran cyhoeddi'r rhain ac yn ceisio cyfarfodydd wedi'u targedu i gynnig ein harbenigedd a'n cymorth rheoleiddio.

¹ [Ymateb ymgynghoriad PSA | Ymgynghoriad GMC ar Reolau Gorchymynion AA a PA \(professionalstandards.org.uk\)](https://www.professionalstandards.org.uk)

² [Gofal mwy diogel i bawb | Awdurdod Safonau Proffesiynol](#)

Cyfathrebu

Oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad o sensitifrwydd uwch ar gyfer cyfathrebu, mae ein sianeli allanol wedi bod yn dawelach nag arfer.

Gwefan

- 6.8 Mae ein Rheolwr Prosiect Gwefan rhan-amser wedi dechrau ac yn helpu i ysgogi momentwm ar y prosiect ailddatblygu. Mae staff ar draws y sefydliad wedi cymryd rhan mewn cyfres o weithdai yn edrych ar ein hamcanion busnes, anghenion defnyddwyr a gofynion swyddogaethol. Fel rhan o'r cam cwmpasu presennol, rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr i gael adborth gan reoleiddwyr a chofrestrau yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth unigol ar ffyrdd o wella ein gwefan.

Brand

- 6.9 O fewn y strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid a gymeradwywyd gan y Bwrdd y llynedd, gwnaethom ymrwymo i adolygu ein brand. Cynhaliwyd gweithdy brand ym mis Mehefin gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Cadeirydd. Roedd hwn yn archwilio ein cynulleidfaoedd blaenoriaeth, cyfeiriad strategol, gwerthoedd a chynnig fel y gellir cyflwyno opsiynau ac argymhellion ynghylch a oes angen adnewyddu ein brand.

Ymgyrch Nod Ansawdd Cofrestrau Achrededig

- 6.10 Rydym yn parhau â'r cynllunio ar gyfer ein hymgyrch Nod Ansawdd achredu ac rydym ar fin lansio Cam 1, sy'n targedu ymarferwyr ar Gofrestrau Achrededig. Bydd yr ymgyrch yn cael ei chyflwyno drwy gymysgedd o sianeli gan gynnwys ein cyfryngau cymdeithasol. Canlyniad pwysig o'r cam cychwynnol hwn o'r ymgyrch yw bod mwy o ymarferwyr yn arddangos y Nod Ansawdd gan fod Cam 2 yn anelu at annog mwy o bobl i gadw llygad am hyn pan fyddant yn dewis ymarferwr achrededig. Bydd Cam 2 yn cael ei lywio gan fewnwelediadau o'n harolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth, fydd wedi dod i ben erbyn cyfarfod y Bwrdd.

7. Gwybodaeth a Mewnwelediad

Ymchwil

- 7.1 Cynhelir cynhadledd ymchwil 2024 ar 17 Hydref mewn lleoliad yng Nghanol Llundain i'w gadarnhau. Bydd yn bartneriaeth gyda'r tîm a arweiniodd y prosiect Tystion i Niwed a ariannwyd gan NIHR. Bydd y cynnwys yn cynnwys lledaenu canfyddiadau'r prosiect hwnnw, ac ymchwil arall sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer. Bydd yr alwad am gynigion cynnwys yn annog yn benodol cyflwyniadau sy'n ymwneud ag EDI a chamymddwyn rhywiol. Rydym wrth ein bodd y bydd yr Athro Louise Stone o Brifysgol Genedlaethol Awstralia, sy'n arwain prosiect rhyngwladol ar niwed rhywiol rhwng meddygon, yn bresennol ac yn cyflwyno yn y digwyddiad.
- 7.2 Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol (AD I&I) wedi cymryd rhan fel cyfwelai mewn ymchwil a gomisiynwyd gan yr SRA ar or-gynrychiolaeth cyfreithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn prosesau gorfodi.

Comisiynau a phrosiectau

Adolygiad a gomisiynwyd: GTC(S)

- 7.3 Mae Cam 1 y gwaith hwn ar y gweill. Ar gais y GTC(S) rydym wedi cytuno ar estyniad i'r amserlen gyffredinol fel y bydd yn dod i ben ddiwedd Chwefror 25 (diwedd Rhagfyr 24 yn flaenorol).

Prosiect camymddwyn rhywiol

- 7.4 Mae'r AD I&I wedi cael trafodaethau gyda GIG Lloegr am ei waith gydag ymddiriedolaethau o dan ei raglen Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a chyda'r HCPC am ei waith ar gamymddwyn rhywiol gyda'r Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans. Y gobaith yw y bydd y rhain yn ganolbwynt i ddwy sesiwn drafod gyntaf y prosiect, ym mis Gorffennaf a mis Medi ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i drefnu hyn. Fel y nodwyd uchod bydd camymddwyn rhywiol hefyd yn is-thema i'r gynhadledd ymchwil.

8. Gwasanaethau Corfforaethol

TG

- 8.1 Newid partner cymorth TG trydydd parti yn ogystal â phartner wrth gefn lletya Azure ac Office 365. Dyma'r newid partner cymorth cyntaf ers y prosiect trawsnewid cwmwl gan ein bod bellach angen cymorth mwy rhagweithiol.

Cyllid

- 8.2 Mae'r Adroddiad Cyllid ar y brif agenda.

Pobl

- 8.3 Ymunodd Ruth Ajayi â ni fel yr aelod Bwrdd Cyswllt newydd ar 3 Mai 2024.
8.4 Ymunodd Helen O'Neill â ni fel Swyddog Ymgysylltu Seneddol ar 13 Mai 2024.
8.5 Ymunodd Kate Lawson â ni fel Rheolwr Polisi (dros gyfnod mamolaeth) ar 24 Mai 2024.
8.6 Ymunodd Lulu Feutry â ni fel Rheolwr Prosiect y Wefan ym mis Mai 2024.
8.7 Bydd Christine Braithwaite yn ymddeol ar 5 Gorffennaf 2024 fel Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi.
8.8 Bydd Simon Wiklund yn ein gadael ar 17 Gorffennaf fel Pennaeth Cyfreithiol tîm S29.
8.9 Mae Osama Ammar wedi ymuno â ni ar 1 Gorffennaf 2024 fel Pennaeth Achrediad.
8.10 Dechreuodd Melanie Venables ar ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu ar 1 Gorffennaf 2024.
8.11 Lluniwyd rhestr fer ar gyfer rôl y Cyfarwyddwr Anweithredol. Cynhelir y cyfweliadau ar 5 Gorffennaf 2024.
8.12 Mae Rhys McCarthy wedi ymuno â ni ar 26 Mehefin 2024 fel Swyddog Craffu.

Llywodraethu

- 8.13 Mae'r rhaglen archwilio mewnol flynyddol bellach ar waith.

EDI

- 8.14 Mae'r cylch mewnol ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu oedd yn weddill o gynllun gweithredu EDI 2023/24 wedi dod i ben. Mae'r camau gweithredu ar gyfer cynllun gweithredu EDI 2024/25 yn cael eu datblygu a bydd gwaith ar y rhain yn dechrau ym mis Gorffennaf 2024.

DPA hyd at 31 Mai 2024

Mae ein perfformiad yn erbyn ein DPA wedi'i nodi isod:

Maes gwaith	Dangosyddion perfformiad allweddol	Perfformiad hyd yma yn 2024/25
Penderfyniadau Adran 29	<p>Nifer yr achosion a dderbyniwyd [o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd]</p> <p>Nifer yr achosion a ystyriwyd mewn cyfarfod achos neu gyfarfod terfyn amser statudol [o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd]</p> <p>Apeliadau a gyflwynwyd [o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd]</p> <p>100% o'r penderfyniadau perthnasol wedi'u hystyried o fewn y terfyn amser statudol [o'i gymharu â'r llynedd]</p>	<p>397 [394]</p> <p>12 [12]</p> <p>7 [7]</p> <p>100% [100]</p>
Adolygiadau Perfformiad	Cyhoeddwyd 100% o adolygiadau perfformiad 2024 o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod adolygu	100%
Pryderon y cyhoedd am gyrff Rheoleiddio	100% o bryderon wedi'u cydnabod o fewn pum diwrnod gwaith ers 1 Ebrill 2024	99% (81/82) ³
Cofrestrau Achrededig – prosesau cyfredol	<p>90% o Gofrestrau yn cael asesiad llawn o fewn tair blynedd i'r asesiad blaenorol.</p> <p>90% o benderfyniadau am y gwiriad blynyddol o fewn blwyddyn i'r asesiad blaenorol.</p> <p>95% o'r Amodau yn cael eu hadolygu o fewn dau fis i'r dyddiad y'u disgwyliwyd.</p>	<p>97% (27/28)</p> <p>89%⁴ (25/28)</p> <p>90%⁵ (77/86)</p>

³ Methwyd un pan gafodd ei drosglwyddo rhwng mewnflychau ar ddechrau mis Ebrill.

⁴ Methwyd y dyddiad cau ar gyfer adolygiad blynyddol Cyngor Aciwbigo Prydain ym mis Mai 2024 oherwydd yr angen i gasglu gwybodaeth ychwanegol. Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r asesiad yn mynd rhagddo ond disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2024.

⁵ Oherwydd cynnydd yn nifer yr Amodau a gyhoeddwyd a chyflwyniadau hwyr gan rai Cofrestrau, darperir mwy o fanylion yn y prif adroddiad.

	<p>100% o adolygiadau wedi'u targedu yn cael eu cwblhau o fewn pedwar mis i'r dyddiad cychwyn.</p> <p>90% o benderfyniadau am geisiadau Safon 1 newydd yn cael eu gwneud o fewn pedwar mis i'w derbyn.</p> <p>90% o benderfyniadau am achrediad llawn (Safonau 2-9) yn cael eu gwneud o fewn wyth mis i'w derbyn.</p>	<p>Amh</p> <p>Amh</p> <p>Amh</p>
Cyllid	Amrywiant incwm / gwariant wedi'i gyllidebu yn llai na 5%	0% [859K/860K]
TGCh	<p>85% o alwadau desg gymorth i gael eu cau o fewn 1 diwrnod</p> <p>System heb fod ar gael o dan 10 awr</p>	<p>100% [56/56]</p> <p>0 awr</p>
Diogelwch gwybodaeth	Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	0
Ceisiadau am wybodaeth (FOI / SAR / EIR)	<p>Ymdriniwyd â phob (100%) Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun o fewn terfynau amser statudol</p> <p>Ymdriniwyd â phob (100%) Cais Rhyddid Gwybodaeth o fewn terfynau amser statudol</p>	<p>100% [1/1]</p> <p>100% [2/2]</p>
Cwynion	<p>Cydnabu 100% o gwynion o fewn pum diwrnod</p> <p>Ymateb i bob cwyn i'w gwblhau o fewn 28 diwrnod</p>	<p>100% [1/1]</p> <p>100% [1/1]</p>
Cyfyngau cymdeithasol	<p>Cyfanswm nifer y dilynwyr ar draws ein sianeli cyfyngau cymdeithasol (o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau)</p> <p>Nifer y dilynwyr newydd ar draws ein sianeli cyfyngau cymdeithasol (o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau)</p>	<p>7,085 (4,159)</p> <p>352 (26)</p>

	Nifer yr ymgysylltiadau â'n postiau cyfryngau cymdeithasol (o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau). <i>Mae ymgysylltiadau yn cynnwys hoffi, ymatebion, sylwadau, atebion a rhannu.</i>	890 (354)
Defnydd o'r wefan	Data blwyddyn hyd yma ar ddefnydd o'r wefan o fis Ebrill 2024 hyd yma gyda'r un cyfnod y llynedd mewn cromfachau <ul style="list-style-type: none"> • Cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau ar draws y wefan • Tudalen benodol Gwirio Ymarferydd a thudalennau ymarferwyr penodol • Hafan Cofrestrau Achrededig a thudalennau Cofrestrau Achrededig cysylltiedig 	115,486 (94,465) 33,371 (31,766) 21,159 (15,837)